# Agenda - Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 5 - Tŷ Hywel**

**a fideogynadledda drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Iau, 19 Mehefin 2025

Amser: 09.30

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Robert Donovan**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddEconomi@senedd.cymru

## Hybrid

### Rhag-gyfarfod preifat

09.15 - 09.30

### Sesiwn gyhoeddus

09.30 - 10.30

### 1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

09.30

### 2 Prosesu bwyd: panel 1

09.30 - 10.30 (Tudalennau 1 - 11)

Huw Thomas, Prif Swyddog Gweithredol, Puffin Produce a Hufenfa Sir Benfro

David Harries, Pennaeth Ffederasiwn Bwyd a Diod Cymru

**Dogfennau atodol:**

Briff Ymchwil

### 3 Papurau i'w nodi

10.30

Senedd Cymru
Welsh Parliament

**3.1 Adroddiad Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig: Deallusrwydd artiffisial ac economi Cymru**:

(Tudalennau 12 - 15)

**Dogfennau atodol**:

Llythyr gan y Cadeirydd at y Ganolfan Gwasanaethau Cyhoeddus Digidol, 3 Mehefin 2025

Llythyr gan y Cadeirydd at Gadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol - 3 Mehefin 2025

**3.2 Gwaith dilynol i gyfarfod y Pwyllgor ar 15 Mai: Glastir a Safonau Gofynnol Cenedlaethol**

(Tudalennau 16 - 18)

**Dogfennau atodol**:

Llythyr gan y Cadeirydd at y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig - 3 Mehefin 2025

**3.3 Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Estyn Cyfnodau Trosiannol) (Diwygio) 2025**

(Tudalennau 19 - 20)

**Dogfennau atodol**:

Llythyr gan y Cadeirydd at y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig - 3 Mehefin 2025

**3.4 Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) 2021**

(Tudalennau 21 - 22)

**Dogfennau atodol**:

Llythyr gan y Cadeirydd at y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig - 3 Mehefin 2025

**3.5 Cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2026-27: Ymgysylltiad - Digwyddiad Rhanddeiliaid**

(Tudalen 23)

**Dogfennau atodol:**

Llythyr gan y Cadeirydd at Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid - 3 Mehefin 2025

**3.6 Iechyd Pridd mewn Amaethyddiaeth**

(Tudalennau 24 - 29)

**Dogfennau atodol:**

Llythyr gan y Cadeirydd at yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol - 4 Mehefin 2025

Llythyr gan y Cadeirydd at yr Athro Bridget Emmett - 4 Mehefin 2025

Llythyr gan y Cadeirydd at Arweinydd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru - 5 Mehefin 2025

**3.7 Tystiolaeth anhysbys y Pwyllgor**

(Tudalennau 30 - 31)

**Dogfennau atodol:**

Llythyr gan y Cadeirydd at y Llywydd, a Chadeirydd y Pwyllgor Busnes - 4 Mehefin 2025

**3.8 Cytundeb Cysylltiadau Rhyngsefydliadol: Adroddiad Blynyddol ar Gysylltiadau Rhynglywodraethol**

(Tudalen 32)

**Dogfennau atodol:**

Llythyr gan y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig at Gadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad - 5 Mehefin 2025

**3.9 Cytundeb Cysylltiadau Rhyngsefydliadol: Cyfarfod Cyngor y Gwledydd a'r Rhanbarthau a Chyfarfodydd Rhynglywodraethol eraill**

(Tudalen 33)

**Dogfennau atodol:**

Llythyr gan y Prif Weinidog at Gadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad - 9 Mehefin 2025

**3.10 Rheoliadau Marcio Nwyddau Manwerthu 2025**

(Tudalennau 34 - 35)

**Dogfennau atodol:**

Llythyr gan y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig - 9 Mehefin 2025

**3.11 Y Grŵp Rhyngweinidogol ar gyfer Cysylltiadau rhwng y DU a’r UE**

(Tudalen 36)

**Dogfennau atodol:**

Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio - 9 Mehefin 2025

## 4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

10.30

## Sesiwn breifat

10.30 - 11.45

## 5 Prosesu bwyd: trafod y dystiolaeth

10.30 - 10.40

## 6 Diweddariad masnach

10.40 – 11.00 (Tudalennau 37 – 49)

**Dogfennau atodol:**

Papur diweddaru masnach (Saesneg yn unig)

## 7 Cytundeb Masnach a Chydweithrediad: trafod pennod ddrafft

11.00 – 11.15 (To Follow)

**Dogfennau atodol:**

Pennod drafft (Saesneg yn unig)

## 8 Llwybrau prentisiaeth: trafod yr adroddiad drafft

11.15 – 11.45 (Tudalennau 50 – 96)

**Dogfennau atodol:**

Adroddiad drafft (Saesneg yn unig)

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

**Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig**
—
**Economy, Trade, and Rural Affairs Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddEconomi@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddEconomi
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddEconomy@senedd.wales
senedd.wales/SeneddEconomy
0300 200 6565

Sharon Gilburd
Cadeirydd
Canolfan Gwasanaethau Cyhoeddus Digidol

3 Mehefin 2025

Annwyl Sharon,

**Adroddiad y Pwyllgor ar Ddeallusrwydd Artiffisial**

Ar 20 Mai cyhoeddodd y Pwyllgor ei adroddiad, Deallusrwydd Artiffisial ac Economi Cymru A all androidau Cymru freuddwydio am ddefaid trydan? Er bod yr argymhellion yn rhai ar gyfer Llywodraeth Cymru, roedd y Pwyllgor o'r farn y gallai'r adroddiad fod yn ddefnyddiol ac y ddiddorol i'r Ganolfan Gwasanaethau Cyhoeddus Digidol.

Er bod yr adroddiad yn canolbwyntio'n bennaf ar yr hyn sy'n rhaid i Lywodraeth Cymru ei wneud er mwyn sicrhau'r manteision posibl o ran AI – ac osgoi'r peryglon posibl – er mwyn cefnogi ein heconomi, clywsom dystiolaeth gymhellol ynghylch yr angen i ddeall AI ym maes caffael cyhoeddus. Fel rhan o'r dystiolaeth a gasglwyd gennym, clywsom am y cyfleoedd y gallai AI eu cynnig i'r Sector Cyhoeddus yng Nghymru. Fodd bynnag, clywsom rybuddion, hefyd, ynghylch sicrhau bod gan swyddogion caffael ddealltwriaeth dda o'r AI yr oeddent yn ei brynu, er mwyn osgoi penderfyniadau gwael gan AI gwael i Gymru.

Darn rhagarweiniol o waith ar fater AI ac economi Cymru oedd hwn. Gan ei bod yn dechnoleg sy'n dod i'r amlwg, dyma ragdybio y bydd y Pwyllgor, neu ei olynydd, yn ailymweld â'r mater hwn yn y dyfodol. Edrychaf ymlaen at y posibilrwydd o weithio gyda'r Ganolfan ar gyfer Gwasanaethau Cyhoeddus Digidol fel rhan o hynny.

Yn gywir,

Andrew RT Davies AS
Cadeirydd: Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg

**Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig**
—
**Economy, Trade, and Rural Affairs Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddEconomi@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddEconomi
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddEconomy@senedd.wales
senedd.wales/SeneddEconomy
0300 200 6565

Peter Fox AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

3 Mehefin 2025

Annwyl Peter,

**Adroddiad y Pwyllgor ar Ddeallusrwydd Artiffisial**

Rwy'n ymwybodol bod eich Pwyllgor wedi cynnal ychydig o waith ar AI fel rhan o'ch digwyddiad Maes o Diddordeb Ymchwil ar arloesi er gwella gofal iechyd. Gan fod iechyd yn debygol o fod ar flaen y gad o ran defnyddio ac elwa o ddeallusrwydd artiffisial, dyma dynnu eich sylw at adroddiad y Pwyllgor Economi, Deallusrwydd Artiffisial ac Economi Cymru, A all androidau Cymru freuddwydio am ddefaid trydan?

Er bod yr adroddiad yn canolbwyntio'n bennaf ar y manteision posibl – ac osgoi’r peryglon posibl – o ran AI i gefnogi ein heconomi, clywsom dystiolaeth gymhellol ynghylch yr angen i ddeall AI ym maes caffael cyhoeddus a allai fod yn berthnasol i waith eich Pwyllgor, yn fy marn i. Mae rhywfaint o'r dystiolaeth a gasglwyd gennym yn tynnu sylw at gyfleoedd y gallai AI eu cynnig i'r sector cyhoeddus yng Nghymru. Fodd bynnag, clywsom rybuddion, hefyd, ynghylch sicrhau bod gan swyddogion caffael ddealltwriaeth dda o'r AI yr oeddent yn ei brynu, er mwyn osgoi penderfyniadau gwael gan AI gwael. Wrth reswm, gallai hyn fod yn drychinebus i leoliad gofal iechyd.

Gan fod AI yn dechnoleg sy'n dod i'r amlwg, rwy'n disgwyl y bydd ein Pwyllgorau, neu eu holynwyr, yn ailystyried y mater hwn, felly dyma edrych ymlaen at y posibilrwydd o gydweithio â chi ynghylch hyn yn y dyfodol.


Senedd Cymru
Welsh Parliament

Yn gywir,

Andrew RT Davies AS
Cadeirydd: Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg

**Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig**

—

**Economy, Trade, and Rural Affairs Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddEconomi@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddEconomi
0300 200 6565

—

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddEconomy@senedd.wales
senedd.wales/SeneddEconomy
0300 200 6565

Huw Irranca-Davies AS
Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig

3 Mehefin 2025

Annwyl Huw,

## Gwaith dilynol i gyfarfod y Pwyllgor ar 15 Mai

Diolch ichi am fod yn bresennol yn y Pwyllgor ar 15 Mai a rhoi tystiolaeth fel rhan o'n ymchwiliad i iechyd y pridd mewn amaethyddiaeth. Yn ystod ein sesiwn breifat, trafodwyd y dystiolaeth a roddwyd gennych, a hoffem gael rhywfaint o eglurhad ynghylch Glastir a chanlyniadau'r Rhaglen Monitro a Modelu Materion Gwledig i'r Amgylchedd (neu *ERAMMP*) a'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol.

### Glastir a chanlyniadau'r Rhaglen Monitro a Modelu Materion Gwledig i'r Amgylchedd (neu *ERAMMP*)

Fel rhan o'n hymchwiliad i iechyd pridd, cawsom wybod am ganlyniadau diweddar y Rhaglen Monitro a Modelu Materion Gwledig i'r Amgylchedd (neu *ERAMMP*), a wnaeth adrodd fel a ganlyn:

- Cynnydd o 2 i 4 gwaith yn nifer y priddoedd sydd wedi gwella, gyda lefelau maetholion uwchlaw'r lefelau a argymhellir, gan beryglu trwytholchi i gyrsiau dŵr. Mae 8% mewn priddoedd âr a 17% o briddoedd sydd wedi gwella bellach yn uwch na'r lefelau a argymhellir;
- sefydlogrwydd cyffredinol mewn carbon pridd ond gyda cholled o 8% o grynodiadau carbon pridd mewn priddoedd âr;



Senedd Cymru
Welsh Parliament

- cynnydd o 6-32% mewn cywasgiad pridd gan ostwng gwydnwch o ran sychder, a chynyddu'r risg o ddŵr ffo cyflym ac allyriadau ocsid nitraidd – mae’r olaf o’r rheini yn nwy tŷ gwydr cryf;
- 4% o briddoedd yng Nghymru wedi'u herydu neu eu tarfu; a hefyd
- ychydig o fanteision cadarnhaol i bridd oedd gan Glastir, gydag ychydig o eithriadau, gan gynnwys cynnydd yng nghrynodiadau carbon uwchbridd mewn 3 o’r 19 cynefin.

Yn ôl yr adroddiad, mae’r canlyniadau’n dangos, er nad ydym bellach yn gweld dirywiadau hirdymor eang, nad ydym, ychwaith, yn gweld y trawsnewidiad sydd ei angen i gyflawni polisïau ac amcanion amgylcheddol Llywodraeth Cymru ar gyfer cynllun Glastir.

Yn ystod y sesiynau tystiolaeth lafar ar gyfer yr ymchwiliad hwn, dywedodd rhanddeiliaid fod angen dysgu gwersi gan Glastir a chanlyniadau ERAMMP i lywio'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy, yn y dyfodol er mwyn sicrhau bod priddoedd yn cael eu rheoli'n fwy cynaliadwy.

Pan gawsoch eich holi gan y Pwyllgor am ganlyniadau ERAMMP ac effeithiolrwydd Glastir, cawsom wybod gennych nad yw’n gynllun y dylem ddisgwyl na rhagweld y byddai Glastir yn cyflawni o ran newid sylweddol yn iechyd y pridd nac ansawdd y pridd pan, mewn gwirionedd, fod y llinellau sylfaen eisoes mewn cyflwr cymharol dda. Yn ôl yr hyn a ddwedoch, mae hon yn stori lwyddiant, os mynnwch chi, i ffermio tir pori yng Nghymru. Dywedodd eich swyddog wrthym fod Glastir yn bennaf yn gynllun cynefin, felly systemau mewnbwn isel yw’r rheini ac mae’n debyg mai systemau asidig ydynt, a’r pecynnau o fwndeli a oedd yn bethau fel tynnu stoc o goetir a ffensio. Ni fydd y mathau hynny o weithgareddau o fudd uniongyrchol i’r pridd, yn ôl eich swyddog.

Nodwn yr amcan cyntaf a restrir yng Nghanllawiau Cyffredinol Glastir yw “rheoli priddoedd er mwyn helpu i ddiogelu ein stoc garbon a lleihau erydiad pridd.” Er mwyn llywio ein dealltwriaeth a'n hargymhellion i chi, byddem yn croesawu esboniad pellach o ran pam eich bod o’r farn bod Glastir yn ‘stori lwyddiant’, tra bod canlyniadau ERAMMP yn dangos darlun gwahanol, i bob golwg, yn erbyn yr amcan hwn.

**Safonau Gofynnol Cenedlaethol**

Yn y Papur Gwyn ar y Bil Amaethyddiaeth (Cymru) (2020) cynigiodd Llywodraeth Cymru i gymryd y camau a ganlyn:

“cynnwys pwerau yn y Bil i Weinidogion Cymru allu creu Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer amaethyddiaeth. Ar ôl i’r Bil gael Cydsyniad Brenhinol, rydym yn cynnig crynhoi’r ddeddfwriaeth sy’n sail i’r gofynion Trawsgydymffurfio mewn is-ddeddfwriaeth, heb ei newid lawer ac ond ychwanegu ati lle bo angen”.

…

“Byddai datblygu set o Safonau Gofynnol Cenedlaethol yn rhoi llinell sylfaen reoleiddio glir i holl ffermwyr Cymru. Byddai’n ei gwneud yn bosibl monitro rheoliadau amaethyddol a’u gorfodi mewn ffordd gyson, gan greu cae chwarae gwastad ledled Cymru ar gyfer pob busnes sy’n rheoli tir amaethyddol”.

…

“Rydym yn cynnig y dylid cynnwys GAEC 4 a 5 sy’n gofyn i ffermwyr gynnal lefel ofynnol o orchudd pridd ynghyd ag osgoi erydu a chywasgu pridd, yn y Safonau Gofynnol Cenedlaethol. Heb hynny, ni fydd rheoliadau statudol ar gyfer diogelu pridd yng Nghymru”.

Dywedoch chi wrth y Pwyllgor ar 15 Mai 2025 fod disgwyl i GAEC 4 a 5 gael eu cynnwys o fewn gofynion y Cynllun Ffermio Cynaliadwy. Er bod y Pwyllgor yn croesawu cynnwys GAEC 4 a 5 mewn rheolau trawsgydymffurfio ar gyfer y rheini sy'n cymryd rhan yn y Cynllun Ffermio Cynaliadwy, hoffem eglurhad ynghylch a fyddai’r rheolau hyn yn berthnasol i ffermwyr y tu allan i'r cynllun hwnnw ai peidio.

At hynny, hoffem ddeall y newid yn null Llywodraeth Cymru o'i gymharu â Phapur Gwyn Bil Amaethyddiaeth (Cymru) lle cynigiwyd y byddai Safonau Gofynnol Cenedlaethol yn cael eu cyflwyno i greu llinell sylfaen reoleiddio glir i bob ffermwr yng Nghymru, gan gynnwys GAEC 4 a 5. Rhowch rywfaint o fanylion am y meddwl y tu ôl i hyn.

Diolch ymlaen llaw am y wybodaeth hon. Bydd yn ddefnyddiol iawn fel rhan o’n ymchwiliad.

Yn gywir,



Andrew RT Davies AS
Cadeirydd: Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg

**Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig**
—
**Economy, Trade, and Rural Affairs Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddEconomi@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddEconomi
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddEconomy@senedd.wales
senedd.wales/SeneddEconomy
0300 200 6565

Huw Irranca-Davies AS
Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig

3 Mehefin 2025

Annwyl Huw,

**Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Estyn Cyfnodau Trosiannol) (Diwygio) 2025**

Diolch am eich llythyr yn tynnu sylw at eich datganiad ysgrifenedig Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Estyn Cyfnodau Trosiannol) (Diwygio) 2025. Nodaf fod y datganiad yn hysbysu'r Senedd eich bod wedi rhoi caniatâd i Lywodraeth y DU wneud rheoliadau a fydd yn "ymestyn cyfnod gweithredu gwiriadau mewnforio ar nwyddau iechydol a ffytoiechydol penodol ('SPS') sy'n dod i mewn i Brydain Fawr o wledydd penodol, tan 31 Ionawr 2027." Yn y datganiad rydych chi'n egluro "bydd hyn yn caniatáu digon o amser i drosglwyddo i sail ddeddfwriaethol barhaol ar gyfer y BTOM [(Model Gweithredu Targed y Ffin)]."

Bydd y rheoliadau newydd hyn yn gohirio'r gwiriadau hynny am gyfnod sylweddol o amser; tan ymhell ar ôl etholiad y Senedd. Byddwch yn ymwybodol bod y Pwyllgor wedi bod yn dilyn datblygiadau yn ymwneud â'r BTOM gyda diddordeb ers dechrau'r Chweched Senedd. Yn yr wythnosau nesaf, byddwn yn ystyried y goblygiadau sy'n deillio o gytundeb Dealltwriaeth Gyffredin y DU a'r UE wrth sefydlu Ardal Iechydol a Ffytoiechydol (SPS) Gyffredin i'r DU a'r UE drwy Gytundeb SPS yn y dyfodol. Rydym yn ddiolchgar i chi am eich gohebiaeth ddiweddar yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'n Pwyllgor ar drafodaethau SPS rhynglywodraethol.

Er mwyn ein helpu i barhau â'n gwaith craffu ar y maes hwn, a allech chi nodi:

- Amserlen o reolaethau masnach a fydd yn cael eu cyflwyno yn ystod gweddill y Chweched Senedd;

- I ba raddau, os o gwbl, y mae'r cytundeb Dealltwriaeth Gyffredin yn ei gwneud yn ofynnol newid y dull o weithredu'r BTOM, gan gynnwys newidiadau i'r amserlen y cyfeirir ati uchod;
- Sut mae'r llywodraethau'n cydweithio ar y newid i'r dull gweithredu, os o gwbl, sy'n ofynnol yn ôl y cytundeb Dealltwriaeth Gyffredin;
- Pa oblygiadau sydd, os o gwbl, ar gyfer parodrwydd y Safleoedd Rheolaethau'r Ffin sy'n cael eu hadeiladu ar hyn o bryd;
- Barn Llywodraeth Cymru ar y darpariaethau SPS yn y Ddealltwriaeth Gyffredin;
- Barn Llywodraeth Cymru ar y darpariaethau penodol sy'n ei gwneud yn ofynnol i Brydain Fawr alinio'n ddeinamig â safonau SPS yr UE; a
- Dadansoddiad cychwynnol Llywodraeth Cymru o'r Ddealltwriaeth Gyffredin mewn perthynas â symudiadau rhwng Cymru ac ynys Iwerddon, gan gynnwys symudiadau Gogledd Iwerddon-Iwerddon-Cymru ac i'r gwrthwyneb.

Edrychaf ymlaen at gael eich ymateb.

Rydw i wedi anfon copi at Delyth Jewell AS, Cadeirydd y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol, Llyr Gruffydd AS, Cadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith, a Mike Hedges AS, Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad yng ngoleuni ein hymchwiliad traws-bwyllgor ar adolygiad gweithredu'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu.

Cofion cynnes,



Andrew RT Davies AS
Cadeirydd: Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

CC: Delyth Jewell AS, Cadeirydd y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol

Llyr Gruffydd AS, Cadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith

Mike Hedges AS, Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Eitem 3.4

**Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig**

—

**Economy, Trade, and Rural Affairs Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddEconomi@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddEconomi
0300 200 6565

—

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddEconomy@senedd.wales
senedd.wales/SeneddEconomy
0300 200 6565

Huw Irranca-Davies AS
Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig

3 Mehefin 2025

Annwyl Huw,

**Reoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) 2021**

Mewn sesiwn breifat yn dilyn ein cyfarfod ar 15 Mai, trafododd yr Aelodau waith blaenorol y Pwyllgor ar Reoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) 2021. Trafododd yr Aelodau'n benodol ein adroddiad ym mis Mehefin 2022 ar y rheoliadau hynny, ac ymweliad y Pwyllgor â Gelli Aur, lle dangoson nhw brosiect diddorol gan ddefnyddio gorsafoedd tywydd ac offer monitro tir er mwyn asesu'r adeg orau i wasgaru gwrtaith.

O ganlyniad i dystiolaeth gref a gafwyd gan y Pwyllgor gan randdeiliaid – yn cynnwys Cyfoeth Naturiol Cymru a Llywodraeth Cymru, a'r arddangosiad yng Ngelli Aur – gwnaeth y Pwyllgor nifer o argymhellion a oedd yn edrych ar ddefnyddio technoleg i symud i ffwrdd o'r arfer o 'ffermio ar sail calendr'. Roedd y canlynol yn eu plith:

- Dylai Llywodraeth Cymru flaenoriaethu unrhyw gynigion amgen addas sy'n defnyddio technoleg yn hytrach na chyfnodau gwaharddedig ar gyfer taenu gwrtaith, neu 'ffermio ar sail calendr'.
- Dylai Llywodraeth Cymru roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am ei hystyriaeth o gynigion amgen erbyn dechrau 2023 a diweddariadau blynyddol rheolaidd pellach ar ystyried mesurau amgen, cyn yr adolygiad rheoleiddiol ffurfiol.



Senedd Cymru
Welsh Parliament

- Rhowch y wybodaeth ddiweddaraf am unrhyw gynnydd gyda datblygiadau yn y maes hwn, yn enwedig ar unrhyw gynnydd tuag at ddisodli ffermio yn ôl gofynion calendr gyda datrysiad sy'n seiliedig ar dechnoleg fwy cywir/ymatebol.

Yn gywir,

Andrew RT Davies AS
Cadeirydd: Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg

**Pwyllgor yr Economi,
Masnach a Materion Gwledig**

**Economy, Trade, and
Rural Affairs Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddEconomi@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddEconomi
0300 200 6565

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddEconomy@senedd.wales
senedd.wales/SeneddEconomy
0300 200 6565

Peredur Owen Griffiths AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Cyllid

3 Mehefin 2025

Annwyl Peredur,

**Digwyddiad i randdeiliaid: Bangor**

Diolch ichi am nodi dull eich Pwyllgor o graffu ar y gyllideb ddrafft, ac am wahodd yr Aelodau i'r digwyddiad i randdeiliaid ar 19 Mehefin ym Mangor. Yn anffodus, mae 19 Mehefin yn ddiwrnod eistedd i'r Pwyllgor felly ni fyddwn yn gallu bod yno.

Hyderaf y bydd y digwyddiad yn mynd yn dda, a dyma edrych ymlaen at weld unrhyw ganlyniadau.

Yn gywir,

Andrew RT Davies

Andrew RT Davies AS
Cadeirydd: Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg



**Senedd Cymru
Welsh Parliament**

**Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig**

—

**Economy, Trade, and Rural Affairs Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddEconomi@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddEconomi
0300 200 6565

—

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddEconomy@senedd.wales
senedd.wales/SeneddEconomy
0300 200 6565

Alys Routley
Ymgynghorydd Defnydd Tir a Ffermio
Ymddiriedolaeth Genedlaethol

4 Mehefin 2025

Annwyl Alys,

**Iechyd Pridd mewn Amaethyddiaeth**

Mae pridd iach yn hynod bwysig i gefnogi ein systemau amaethyddol, at ddibenion cynhyrchu bwyd/ffibr, ansawdd dŵr, atal llifogydd, bioamrywiaeth a storio carbon. Er mwyn cefnogi iechyd pridd Cymru yn y dyfodol, mae'r Pwyllgor yn cynnal ymchwiliad i iechyd pridd mewn amaethyddiaeth.

Un o'r meysydd y mae'r Aelodau wedi bod yn eu hystyried yw sut y gellid cefnogi neu annog tenantiaid i wella iechyd y pridd ar y tir maen nhw'n ei rentu. Gan fod yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn prydlesu tir i lawer o ffermwyr tenant, roeddem o'r farn y gallai hwn fod yn fater yr oeddech wedi'i ystyried, neu wedi cynnal rhywfaint o waith yn ei gylch.

Byddai'r Pwyllgor yn croesawu unrhyw farn sydd gennych ar sut y gellid annog a chefnogi tenantiaid i wella iechyd y pridd – yn enwedig ar gyfer cytundebau tymor byr – ac unrhyw farn a allai fod gennych ar unrhyw elfennau eraill o'r ymchwiliad hwn.

Diolch ymlaen llaw am eich cefnogaeth gyda'r ymholiad pwysig hwn, anfonwch eich ymateb erbyn 22 Mehefin.



Senedd Cymru
Welsh Parliament

Yn gywir,

Andrew RT Davies AS
Cadeirydd: Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg

**Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig**
—
**Economy, Trade, and Rural Affairs Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddEconomi@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddEconomi
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddEconomy@senedd.wales
senedd.wales/SeneddEconomy
0300 200 6565

Yr Athro Bridget Emmett
Canolfan Ecoleg a Hydroleg y DU

4 Mehefin 2025

Annwyl Bridget,

**Iechyd Pridd mewn Amaethyddiaeth**

Diolch i chi am roi tystiolaeth i'r Pwyllgor ar 30 Ebrill. Roedd yr Aelodau'n ei chael yn ddiddorol ac yn ddefnyddiol iawn. Rwy'n ysgrifennu i ofyn cwestiwn dilynol ynghylch allyriadau carbon a phridd. Yn eich tystiolaeth, fe dywedoch:

> *"If you think about Wales as the round, soils are a net contributor [to carbon emissions]. Because arables are emitting, and peatlands. Peatlands are four per cent of Wales, but they're contributing nine per cent of the net agriculture and land use, land use change and forestry inventory. As Will said, a lot of our soils are just stable, a lot of our pastures, we can't find trends in those, but the arable is going down, the peatland is going down. So, the first thing is that we must stop that. And then the question is how can you get more carbon into soil."*

Yr wythnos diwethaf, trafodwyd y dystiolaeth hon gyda chynrychiolwyr yr undebau ffermio. Cawsom wybod gan NFU Cymru yr hoffent i'r honiad hwnnw fod yn destun mwy o waith craffu, oherwydd byddai'r wybodaeth a welwyd ganddynt – yn enwedig o adroddiad y Pwyllgor Newid Hinsawdd, a ddaeth allan y diwrnod cyn iddynt roi tystiolaeth – yn awgrymu, mewn gwirionedd, fod carbon mewn priddoedd yn sefydlog a, dros gyfnodau hanesyddol o amser, ei fod yn gostwng ychydig. Nid oedd NFU Cymru yn hollol siŵr, felly, o ble ddaeth yr honiad hwnnw. Cawsom wybod ganddynt y byddai'n ddefnyddiol cael rhagor o wybodaeth am hynny.

Rhowch fwy o fanylion inni am y dystiolaeth bod priddoedd Cymru'n cyfrannu'n net at allyriadau carbon. At hynny, byddai diddordeb gennym i glywed unrhyw farn sydd gennych ar adroddiad


Senedd Cymru
Welsh Parliament

diweddar y Pwyllgor Newid Hinsawdd ar gyllidebau carbon Cymru, sy'n berthnasol i ymchwiliad y Pwyllgor i iechyd y pridd.

Fe wnaethoch ddweud wrthym, hefyd, mai pridd yw un o'r ffynonellau gwastraff mwyaf sy'n mynd i safleoedd tirlenwi, gan nad oes ffordd hawdd o'i ailgylchu. A oes gennych chi fwy o fanylion am yr ystadegyn hwnnw? Byddem yn arbennig o awyddus i wybod beth yw ffynhonnell y pridd, e.e. a yw o amaethyddiaeth, adeiladu neu ffynhonnell arall? At hynny, a ydych chi'n gwybod am unrhyw waith sy'n cael ei wneud i hwyluso ailgylchu pridd?

Diolch eto am eich cyfraniad at yr ymchwiliad hwn, hyd yn hyn. Dyma edrych ymlaen at glywed eich barn ar y materion dilynol hyn.

Yn gywir,



Andrew RT Davies AS
Cadeirydd: Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg

**Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig**
—
**Economy, Trade, and Rural Affairs Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddEconomi@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddEconomi
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddEconomy@senedd.wales
senedd.wales/SeneddEconomy
0300 200 6565

Y Cyng Andrew Morgan OBE
Arweinydd CLlLC

05 Mehefin 2025

Annwyl Andrew,

**Iechyd Pridd mewn Amaethyddiaeth**

Mae pridd iach yn hynod bwysig i gefnogi ein systemau amaethyddol, at ddibenion cynhyrchu bwyd/ffibr, ansawdd dŵr, atal llifogydd, bioamrywiaeth a storio carbon. Er mwyn cefnogi iechyd pridd Cymru yn y dyfodol, mae'r Pwyllgor yn cynnal ymchwiliad i iechyd pridd mewn amaethyddiaeth.

Un o'r meysydd y mae gan y Pwyllgor ddiddordeb arbennig ynddo yw dosbarthiad priddoedd ar gyfer defnydd tir. Fel y gwyddoch, mae Polisi Cynllunio Cymru yn nodi mai tir amaethyddol o radd 1, 2 a 3a yn y Dosbarthiad Tir Amaethyddol (ALC) yw'r tir amaethyddol "gorau a mwyaf amlbwrpas, a dylid ei warchod fel adnodd y mae terfyn iddo ar gyfer y dyfodol". Mae'n nodi y dylid "rhoi cryn bwys ar ddiogelu tir o'r fath rhag ei ddatblygu, oherwydd ei bwysigrwydd arbennig" ac na ddylid datblygu tir o raddau 1, 2 a 3a, "onid oes angen sy'n drech na dim arall am y datblygiad".

Fodd bynnag, mae'r Pwyllgor yn cydnabod bod tensiwn rhwng yr angen i ddatblygu tir, yn enwedig ar gyfer tai, a'r angen i warchod ein tiroedd fferm mwyaf gwerthfawr a mwyaf cynhyrchiol o bosibl. Fel rhan o'n hymchwiliad, byddai'r Pwyllgor yn awyddus iawn i glywed barn awdurdodau lleol, drwy Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, am y tensiwn hwnnw a'r hyn y mae awdurdodau lleol yn ei wneud, yn enwedig fel rhan o'u gwaith ar Gynlluniau Datblygu Lleol, i ddiogelu'r pridd mwyaf gwerthfawr ac i gadw ei ddefnydd at ddiben tyfu cnydau.

Diolch ymlaen llaw am eich cymorth gyda'r ymchwiliad pwysig hwn; gofynnir yn garedig i chi ymateb erbyn 22 Mehefin.

Yn gywir,

Andrew RT Davies AS
Cadeirydd: Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg

**Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig**
—
**Economy, Trade, and Rural Affairs Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddEconomi@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddEconomi
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddEconomy@senedd.wales
senedd.wales/SeneddEconomy
0300 200 6565

Y Gwir Anrh. Elin Jones AS
Cadeirydd
Pwyllgor Busnes

4 Mehefin 2025

Annwyl Lywydd,

**Tystiolaeth ddienw**

Ddwywaith yn ystod y Senedd hon, mae Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig wedi cael tystiolaeth gyfrinachol gyda’r potensial o amlygu arferion gwael mewn cyrff cyhoeddus yng Nghymru. Er inni wneud ein gorau i gefnogi'r bobl a gyflwynodd y dystiolaeth, a'i hymgorffori yn ein gwaith, pan nad yw rhywun yn fodlon rhoi tystiolaeth swyddogol, gall fod yn anodd iawn i bwyllgor ddefnyddio’r dystiolaeth honno.

Yn ddau achos o dan sylw, roedd y rheini a gynigai'r dystiolaeth yn dymuno aros yn ddienw, gan eu bod naill ai'n gweithio yn y sector, neu eisiau parhau i wneud busnes yn y sector ac yn poeni am beryglu enw da yn sgil cynnig tystiolaeth swyddogol, a goblygiadau codi llais. O ystyried ein bod yn genedl fechan, gallaf ddychmygu bod hon yn broblem sy'n atal llawer o dystion allweddol posibl rhag rhoi tystiolaeth ddefnyddiol i Bwyllgorau.

Teimlai’r Pwyllgor, fel rhan o’r paratoadau ar gyfer y Seithfed Senedd, y gallai’r Pwyllgor Busnes, Fforwm y Cadeiryddion neu gorff arall ystyried y mater, a’r modd y byddai pwyllgorau’r dyfodol yn gallu cael tystiolaeth yn gyfrinachol, a gweithio gyda’r cyfryw dystiolaeth. Am resymau amlwg, nid wyf am ddatgelu gormod o fanylion am y dystiolaeth ddienw yn y llythyr hwn. Fodd bynnag, rwy'n hapus i'r Clerc drafod y materion gyda phwy bynnag sy’n dwyn y gwaith hwn yn ei flaen, a rhoi mwy o fanylion yn breifat.

Diolch ichi am eich sylw o ran y mater hwn.



Senedd Cymru
Welsh Parliament

Yn gywir,

Andrew RT Davies AS
Cadeirydd: Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg

**Huw Irranca-Davies AS/MS**
**Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig**
**Deputy First Minister and Cabinet Secretary for Climate Change and Rural Affairs**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mike Hedges AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad
Senedd Cymru

SeneddDCC@senedd.cymru

5 Mehefin 2025

Annwyl Mike,

**Y Cytundeb Cysylltiadau Rhyngsefydliadol: Adroddiad Blynyddol Cysylltiadau Rhynglywodraethol**

Rwy'n ysgrifennu yn unol â'r cytundeb cysylltiadau rhyngsefydliadol i roi gwybod ichi fy mod heddiw wedi gosod Adroddiad Trosolwg o Gysylltiadau Rhynglywodraethol, sy'n ymwneud â'r cyfnod rhwng mis Ebrill 2023 a mis Gorffennaf 2024. Mae'r adroddiad ar gael yma. Hefyd, rwyf wedi cyhoeddi datganiad ysgrifenedig cysylltiedig, sydd ar gael yma.

Rwyf wedi copïo'r llythyr hwn at Gadeiryddion y Pwyllgor Craffu ar Waith y Prif Weinidog; y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg; y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a'r Seilwaith; y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol; Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig; y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol; y Pwyllgor Cyllid; y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol; a'r Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai.

Yn gywir



**Huw Irranca-Davies AS/MS**
Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig
Deputy First Minister and Cabinet Secretary for Climate Change and Rural Affairs

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Huw.Irranca-Davies@llyw.cymru
Correspondence.Huw.Irranca-Davies@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Y Gwir Anrh/Rt Hon Eluned Morgan AS/MS**
**Prif Weinidog Cymru/First Minister of Wales**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mike Hedges AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru

SeneddDCC@senedd.cymru

09 Mehefin 2025

Annwyl Gadeirydd

Yn dilyn fy llythyr dyddiedig 22 Mai 2025 ac yn unol â'r Cytundeb Rhyngsefydliadol, rwy'n ysgrifennu i dynnu eich sylw at **Ddatganiad Ysgrifenedig Gweinidogol** sy'n crynhoi'r trafodaethau yng Nghyngor y Gwledydd a'r Rhanbarthau ac mewn cyfarfodydd rhynglywodraethol eraill ar 23 Mai 2025.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Huw Irranca-Davies AS, y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig; Rebecca Evans AS, Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio; Julie James AS, y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Cyflawni; y Gwir Anrhydeddus Elin Jones AS, y Llywydd; Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid; a Chadeirydd Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig.

Dymuniadau gorau

M. E. Morgan

**Eluned Morgan**

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Eluned.Morgan@llyw.cymru
Correspondence.Eluned.Morgan@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Huw Irranca-Davies AS/MS**
**Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig**
**Deputy First Minister and Cabinet Secretary for Climate Change and Rural Affairs**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MA/HIDCC/1372/25

Mike Hedges AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Andrew RT Davies AS
Cadeirydd
Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig
Senedd Cymru

9 Mehefin 2025

Annwyl Mike, Andrew,

Rwy'n ysgrifennu i hysbysu'r Pwyllgor fy mod wedi rhoi cydsyniad i'r Ysgrifennydd Gwladol dros yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig wneud Rheoliadau Marcio Nwyddau Manwerthu 2025, a'u gosod. Mae'r Rheoliadau yn gymwys i Gymru, Lloegr a'r Alban.

Mae'n ddrwg gennyf nad oedd modd imi ysgrifennu at eich pwyllgor i roi hysbysiad o'm bwriad i gydsynio i'r Rheoliadau fel y nodir yn y Cytundeb Cysylltiadau Rhyngsefydliadol rhwng Senedd Cymru a Llywodraeth Cymru. Derbyniwyd drafft terfynol y Rheoliadau ddiwedd yr wythnos ddiwethaf wedi trafodaethau rhynglywodraethol.

Mae'r Rheoliadau yn rhoi pŵer i'r Ysgrifennydd Gwladol gyhoeddi hysbysiadau i ofyn am labelu "nid ar gyfer yr UE" ar gynhyrchion bwyd a diod marchnad penodol Prydain Fawr gyda'r gofyniad i ymgynghori â'r llywodraethau datganoledig cyn gwneud penderfyniad.

Rwyf wedi gosod Datganiad Ysgrifenedig sydd i'w weld yma.

Gwnaed y Rheoliadau hyn drwy ddefnyddio pwerau yn:

- Adran 8C(1) o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018.

Pwrpas y Rheoliadau yw darparu ar gyfer pŵer wrth gefn i gyflwyno labelu 'Nid ar gyfer yr UE' ar gyfer cynhyrchion bwyd penodol ym Mhrydain Fawr. Byddai'r mesur hwn yn cael ei ddeddfu pan fo'r Ysgrifennydd Gwladol yn fodlon bod cyflenwad rhai nwyddau manwerthu i ddefnyddwyr yng Ngogledd Iwerddon mewn perygl ac yn ystyried bod angen ymyrraeth i ddiogelu'r cyflenwad bwyd i bobl Gogledd Iwerddon.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Huw.Irranca-Davies@llyw.cymru
Correspondence.Huw.Irranca-Davies@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn y Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Bwriad y posibilrwydd o gyflwyno labelu 'Nid ar gyfer yr UE' ar gyfer marchnad Prydain Fawr, yw cymell manwerthwyr a gweithgynhyrchwyr i wneud y newidiadau angenrheidiol i gydymffurfio â'r gofynion labelu ar gyfer nwyddau sy'n cael eu symud i Ogledd Iwerddon gan fusnesau o Brydain Fawr. Byddai hyn yn dileu unrhyw gymhellion ariannol ar gyfer dad-restru cynhyrchion yng Ngogledd Iwerddon yn hytrach na'u labelu, a thrwy hynny yn diogelu llif nwyddau i Ogledd Iwerddon.

Byddai'r gofyniad am labelu wedi'i dargedu at gynhyrchion penodol yn hytrach na'r dull cyffredinol yr ymgynghorodd Llywodraeth flaenorol y DU arno ym mis Chwefror 2024. Bydd busnesau bach wedi'u heithrio o'r gofynion hyn.

Er mai egwyddor gyffredinol Llywodraeth Cymru yw gyfraith sy'n ymwneud â materion datganoledig gael ei gwneud a'i diwygio yng Nghymru, ar yr achlysur hwn, er mwyn mabwysiadu dull cyson a chydlynol sy'n caniatáu i Lywodraeth y DU gyflawni ei hymrwymiadau i ddiogelu'r cyflenwad o fwyd i Ogledd Iwerddon, y mae Llywodraeth Cymru yn ei gefnogi, rwy'n ystyried ei bod yn briodol cydsynio i osod y Rheoliadau hyn. Rwyf ar ddeall bod Llywodraeth yr Alban hefyd wedi cytuno i gydsynio.

Mae'r Rheoliadau yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol ac fe'u gosodwyd gerbron Senedd y DU ar 5 Mehefin 2025 gyda dyddiad cychwyn a fydd yn amodol ar benderfyniad dau Dŷ Senedd y DU i gymeradwyo'r OS.

Mae'r Rheoliadau i'w gweld yma.

Unwaith eto, mae'n ddrwg gennyf nad oeddwn yn gallu darparu gwybodaeth i'r Pwyllgor cyn i'r Rheoliadau gael eu gosod.

Yn gywir,



**Huw Irranca-Davies AS/MS**
Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd
a Materion Gwledig
Deputy First Minister and Cabinet Secretary for Climate Change and Rural Affairs

**Rebecca Evans AS/MS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio**
**Cabinet Secretary for Economy, Energy and Planning**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Andrew RT Davies AS
Cadeirydd Pwyllgor yr Economi, Masnach a
Materion Gwledig

SeneddEconomi@senedd.cymru

09 Mehefin 2025

Annwyl Andrew,

Ysgrifennaf i roi gwybod i chi fod cyfarfod y Grŵp Rhyngweinidogol ar gysylltiadau rhwng y DU a'r UE wedi'i gynnal ar 12 Mai 2025.

Fe wnaethom drafod ailosod y berthynas rhwng y DU a'r UE . Fel y gwyddoch, cynhaliwyd Uwchgynhadledd rhwng y DU a'r UE ar 19 Mai a chyhoeddodd y DU gychwyn newydd ar y berthynas rhwng y DU a'r UE yn ffurfiol, gyda chyfleoedd newydd ar gyfer gwella amddiffyn a diogelwch a ffyniant economaidd pobl a busnesau bob ochr i'r Sianel.

Mae Cytundeb Dealltwriaeth Gyffredin rhwng y DU a'r UE yn cynnwys llawer o'r blaenoriaethau a osodwyd gennym i lywodraeth y DU, ac mae'n darparu'r sylfeini ar gyfer trafodaethau pellach gyda'r UE, a fydd yn cynnig cyfle i ni barhau i weithio gyda'r DU a'r UE i sicrhau bod buddiannau Cymru yn parhau i gael eu hadlewyrchu mewn trafodaethau.

Roedd y cytundeb yn cynnwys ymrwymiad i ddarparu 'Ardal Glanweithdra a Ffytoiechydol Gyffredin' a fydd o fudd i'r sectorau bwyd-amaeth a diod yng Nghymru, yn enwedig wrth werthu cig coch. Bydd gwaith agosach hefyd i gysylltu systemau masnachu allyriadau ac ynni i gefnogi twf gwyrdd a swyddi gwyrdd. Bydd cwotâu dur gwell i'r UE hefyd yn darparu cymorth sydd mawr ei angen ar ein sector dur.

Yn gywir,

**Rebecca Evans AS/MS**
Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio
Cabinet Secretary for Economy, Energy and Planning

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn y Gymraeg. Byddwn yn ateb i ohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn yr un iaith ac ni fydd gohebu yn y Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

# Eitem 8

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon